

ATODLEN 6

(a gyflwynir gan adran 57)

DIWYGIADAU CANLYNIADOL ETC. MEWN PERTHYNAS Â CHYNORTHWYWYR GWEITHREDIAETHAU AWDURDODAU LLEOL

Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70)

- 1 (1) Mae Deddf 1972 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
 - (2) Ym mhob un o adrannau 22(1A), 24(1A), 24A(5) a 24B(3) (cadeirydd, is-gadeirydd, aelod llywyddol a dirprwy aelod llywyddol), ar ôl “principal council” mewnosoder “, or an assistant to the executive,”.
 - (3) Yn adran 270(1) (dehongli), ar ôl y diffiniad o “appropriate Minister” mewnosoder—
““assistant to the executive” has the same meaning as in Schedule 1 to the Local Government Act 2000 (see paragraph 3A of that Schedule);”.
 - (4) Yn Atodlen 12, ym mharagraff 5(4) (llywyddu mewn cyfarfodydd), ar ôl “principal council” mewnosoder “, or an assistant to the executive,”.
- 2 (1) Hyd nes y bo paragraff 1(3) o Atodlen 2 i’r Ddeddf hon yn dod i rym, mae adran 80(1)(a) o Ddeddf 1972 i’w darllen fel pe bai “or assistant to the executive” wedi ei roi ar ôl “member of the executive”.
- (2) Hyd nes y bo paragraff 1(7) o Atodlen 2 i’r Ddeddf hon yn dod i rym, mae adran 116 o Ddeddf 1972 i’w darllen fel pe bai “or assistant to the executive” wedi ei roi ar ôl “member of the executive”.

Deddf Llywio 1987 (p. 21)

- 3 Yn adran 3 o Ddeddf Llywio 1987 (awdurdodi llywyr)—
 - (a) yn is-adran (9A)(a), ar ôl “local authority” mewnosoder “, or an assistant to the executive,”;
 - (b) yn is-adran (10), ar ôl y geiriau agoriadol mewnosoder—
““assistant to the executive” has the same meaning as in Schedule 1 to the Local Government Act 2000 (see paragraph 3A of that Schedule);”.

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14)

- 4 Yn adran 106(2A) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y dreth gyngor etc.: cyfyngiadau ar bleidleisio), ar ôl “to whom this section applies” mewnosoder “, and no assistant to the executive (within the meaning of paragraph 3A of Schedule 1 to the Local Government Act 2000) to whom this section applies,”.

Deddf Llywodraeth Leol 2000 (p. 22)

- 5 Yn adran 21(9) o Ddeddf 2000 (nid yw pwyllgor trosolwg a chraffu i gynnwys aelodau o’r weithrediaeth), ar ôl “executive” mewnosoder “or any assistant to the executive (within the meaning of paragraph 3A of Schedule 1)”.

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mccc 4)

- 6 (1) Mae Mesur 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

- (2) Yn adran 12(2)(b) (aelodaeth pwyllgor gwasanaethau democrataidd), ar ôl “weithrediaeth yr awdurdod” mewnosoder “neu’n gynorthwydd i’w weithrediaeth”.
- (3) Yn adran 14(2) (cadeirydd pwyllgor gwasanaethau democrataidd), ar ôl “weithrediaeth yr awdurdod lleol” mewnosoder “neu’n gynorthwydd i’w weithrediaeth”.
- (4) Yn adran 82 (aelodaeth pwyllgor llywodraethu ac archwilio)—
 - (a) yn is-adran (2)(c) ar ôl “weithrediaeth yr awdurdod” mewnosoder “neu’n gynorthwydd i’w weithrediaeth”;
 - (b) yn is-adran (3) ar ôl “weithrediaeth yr awdurdod” mewnosoder “neu gynorthwydd i’w weithrediaeth”.
- (5) Yn adran 83(2) (cadeirydd pwyllgor llywodraethu ac archwilio), ar ôl “weithrediaeth yr awdurdod lleol” mewnosoder “neu’n gynorthwydd i’w weithrediaeth”.